



Archwilio byd cadwraeth ystlumod trwy'r cwricwlwm cenedlaethol

Nodiadau i Athrawon

9. STRATEGAETHAU CADWRAETH NATUR

Meysydd dysgu a phrofiad perthnasol:

Gwyddor yr Amgylchedd, Iaith, Llythrennedd a chyfathrebu

Darllenwch y daflen ffeithiau *Strategaethau Cadwraeth Natur* yn ofalus i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn.

- Pam dylen ni ddiogelu ystlumod?
- Pam mae ystlumod yn cael eu hamddiffyn?
Meddyliwch am y cwestiynau yma a'u trafod mewn grŵp cyn edrych ar *Mae angen Ystlumod ar Bobl* i gael rhagor o syniadau.
- Beth sy'n gyrru cadwraeth?
 - a) Rhwymedigaethau rhyngwladol?
 - b) Gofynion Ewropeaidd?
 - c) Beth yw nod Strategaeth Cadwraeth y Byd? Sut rhoddodd Llywodraeth Cymru hynny ar waith yn 2016?
- Beth mae dull gweithredu 'moronen a ffon' yn ei olygu?

Casglwch ragor o wybodaeth am y Confensiynau sy'n effeithio ar ystlumod:

Confensiwn Bern 1979 – Y Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop.
<http://jncc.defra.gov.uk/page-1364>

Lluniwyd Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981 (WCA) o ganlyniad i hyn.

Confensiwn Bonn neu CMS 1979 – Y Confensiwn ar Gadwraeth Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt.
<http://jncc.defra.gov.uk/page-1366>

- Pam mae hyn yn arbennig o anodd i'w weithredu?

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol 1992 <https://www.cbd.int/intro/default.shtml>

Cyfarwydddeb Cynefinoedd – Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt. <http://jncc.defra.gov.uk/page-1374>

- Ydy proses datganoli wedi effeithio ar weithredu'r rhwymedigaethau rhyngwladol hyn?

Rheoliadau sy'n defnyddio'r Gyfraith

Mae taflen yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod **Ystlumod a'r Gyfraith** yn ymhelaethu ar yr wybodaeth sydd ar y daflen ffeithiau. Gallwch ei lawrlwytho o wefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, ac yna ateb y cwestiynau hyn:

- Rhestrwch y tramgwyddau troseddol sy'n gysylltiedig ag ystlumod o dan Gyfraith y Deyrnas Unedig.
- I bwy mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol? Awgrymwch un gweithgaredd posibl gan bob grŵp a allai niweidio ystlumod a pham.
- Pa amddiffyniadau sydd ar gael rhag cael eich erlyn?

Trafodaeth

1. Penderfynwch beth yw'r gwahaniaethau rhwng WCA a rheoliad 42 HR. Ydy hyn yn achosi problem? Os ydy, beth allech chi wneud am hynny, ac os nac ydy, pam hynny?
2. Meddyliwch am y gwahaniaethau rhwng Cyfarwyddbau a Chytundebau/Confensiynau. Oes modd eu gorfodi?
3. Meddyliwch pam mae rhaid amddiffyn bywyd gwyllt fel hyn, a pham na allwn ni adael i bobl benderfynu drostynt eu hunain.

Cyfreithiau cynllunio. Er nad yw'r rhain yn amddiffyn bywyd gwyllt, maen nhw yn gofyn bod effaith cynnig datblygu yn cael ei ystyried, fel bod modd lliniaru canlyniadau niweidiol.

Yng Nghymru, mae gennym ni hefyd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (WFG) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (EWA).

(a) Mae WFG yn crisialu egwyddorion Datblygu Cynaliadwy. Beth mae hynny'n ei olygu? Enwch 2 o'r 7 nod. (https://en.wikipedia.org/wiki/Sustainable_development) .

(b) Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff ymgynghorol statudol i Lywodraeth Cymru.

- Beth mae'r ddyletswydd 'i geisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy' yn ei olygu? Chwiliwch ar Google am *Polisi Cynllunio Cymru* i ddysgu mwy am ddogfen Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r prif bolisiau ar gyfer cynllunio defnydd tir.

Cyllid

(a) Ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd

Mae tua 80% o Gymru o dan reolaeth amaethyddol (www.jncc.defra.gov.uk/page-4242). Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, mae systemau ffermio wedi cael effaith sylweddol ar ein hamgylchedd a'r tirlun wrth i'r diwydiant ymateb i bolisi ac ymyriadau'r llywodraeth. Ochr yn ochr â newid yn yr hinsawdd, nodwyd y newidiadau i arferion amaethyddol fel 2 brif sbardun ar gyfer dirywiad bywyd gwyllt yn y Deyrnas Unedig.

Cafwyd nifer o gynlluniau rheoli tir amgylcheddol neu amaeth-amgylcheddol yn ystod y blynyddoedd, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â materion penodol. Mae llawer o'r cyllid ar gyfer y rhain wedi dod oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd trwy'r Polisi Amaeth Cyffredin, sy'n rhoi cymhelliant ariannol i reoli tir ffermio ar gyfer materion penodol. Dosbarthir yr arian hwn gan Lywodraeth Cymru.

Pynciau trafod:

- Beth yw rheolau, hawliau a chyfrifoldebau pobl a chymdeithas wrth amddiffyn bywyd gwyllt?
- Oes hawl gan fywyd gwyllt i gael gofal, ac a ddylai anghenion pobl fod yn bwysicach na hynny?
- Beth dybiwch chi yw ystyr datblygu cynaliadwy? Ai mater o bwyso a mesur anghenion yr amgylchedd a chymdeithas neu gael hyd i ffyrdd o sicrhau bod y gymdeithas yn cael beth mae eisiau heb niweidio'r amgylchedd?
- Ewch ati i ddarganfod pa gyrff elusennol sydd â diddordeb mewn cadwraeth bywyd gwyllt – beth maen nhw'n ei wneud, sut maen nhw'n gweithio ac ati. Mae o leiaf wyth o'r rhain. Dylai pob disgybl unigol ymchwilio i o leiaf un o'r rhain a chyflwyno'u canfyddiadau i'r dosbarth.
- Pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd wedi bod ar waith yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf? Sut mae'r rhain yn gweithio'n ymarferol? A fu unrhyw asesu'n digwydd i weld ydyn nhw'n cyflawni eu bwriadau?